

Arferion Gorau ar gyfer  
**Arwyddion Dwyieithog**

Best Practice for  
**Bilingual Signs**



**Mwynhewch  
flas Cymru**

**Enjoy the taste  
of Wales**





BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD

## Pwrpas y ddogfen hon

Cyhoeddir y ddogfen hon gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg (BYIG). Mae'n cyfeirio at arwyddion sydd yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn argymhell arferion gorau er mwyn:

- Rhoi cymorth i unrhyw un sydd eisiau neu sy'n gorfol trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
- Rhoi cymorth i staff a rheolwyr sy'n gyfrifol am fanylob, dyluniad a phwrcasu arwyddion;
- Hybu triniaeth gyson o'r Gymraeg a'r Saesneg ar arwyddion yng Nghymru.

## Purpose of this document

This document is published by the Welsh Language Board (WLB). It refers to signs which are bilingual in Welsh and English and recommends a best practice which will:

- Assist anyone who wishes to or is required to treat Welsh and English on an equal basis;
- Assist staff and managers who are responsible for the specification, design and procurement of signs;
- Promote a consistent treatment of Welsh and English on signs in Wales.



## Sefyllfa gyfredol

Mae'r driniaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg ar arwyddion yn amrywio trwy Gymru, weithiau o fewn yr un sefydliad neu adeilad. Mewn ymateb i gefnogaeth boblogaidd, mae arwyddion yn gynyddol yn gwbl ddwyieithog, ond nid oes eto gytundeb ar "arferion gorau", yn arbennig o ran lleoliad y ddwy iaith ar un arwydd. Byddai triniaeth sy'n gyson yn ei gwneud hi'n haws i bobl adnabod eu dewis iaith ar arwyddion.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mabwysiadau'r polisi canlynol ar gyfer unrhyw arwydd nad yw'n arwydd traffig<sup>1</sup>:

Bydd unrhyw arwyddion dros dro a pharhaol ac arwyddion newydd ac arwyddion sy'n cael eu hadnewyddu yn ddwyieithog. Byddwn yn ffafrio gosod y ddwy iaith ochr yn ochr gyda'r Gymraeg ar y chwith. Pan fydd un iaith yn cael ei gosod uwchben y llall caiff y fersiwn Cymraeg ei gosod uwchben y Saesneg<sup>2</sup>.

## Current Situation

The treatment of Welsh and English on signs varies throughout Wales, sometimes within the same organisation or premises. In response to popular support, signs are increasingly bilingual, but there is not yet agreement on "best practice", especially regarding the positioning of the two languages on signs. A consistent treatment would make it easier for people to recognise their preferred language on signs.

The Welsh Assembly Government has adopted the following policy for all signs except traffic signs<sup>1</sup>:

All temporary and permanent signs and new and replacement signs will be bilingual. We will prefer that both languages be placed side by side with the Welsh on the left. Where one language is placed above the other the Welsh version will be placed above the English<sup>2</sup>.



<sup>1</sup> Wele Atodiad A am fanylion pellach ar arwyddion traffig  
<sup>2</sup> Cyllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006, t. 72

<sup>1</sup> See Annex A for further detail on traffic signage

<sup>2</sup> Welsh Assembly Government Welsh Language Scheme 2006, p.73

O dan delerau Deddf yr iaith Gymraeg 1993, mae cyrff a enwyd yn cytuno Cynlluniau iaith gyda Bwrdd yr iaith Gymraeg. Mae'r Cynlluniau yn cynnwys cymalau ar arwyddion, sydd yn mynnu eu bod yn ddwyieithog ac yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Ymysg awdurdodau lleol Cymru: mae 7 cyngor yn rhoi'r Gymraeg yn gyntaf (lyn y Gogledd-Orllewin a'r Canolborth); mae 5 cyngor yn rhoi blaenoriaeth i'r Saesneg (lyn Gogledd-Ddwyrain a'r De); a'r 10 cyngor sy'n weddill yn arddel cyfartaledd heb fanylu ar leoliad y ddwy iaith ar arwyddion. Mae tri allan o bedwar awdurdod heddlu hefyd yn gosod y Gymraeg yn gyntaf ar arwyddion. Peidio cyfeirio yn benodol at leoliad iaith ar arwyddion yw'r arfer cyffredin mewn Cynlluniau iaith.

Mae arwyddion dwyieithog yn ddewisol i unrhyw gorff nad ydyw wedi ei enwi o dan Ddeddf yr iaith Gymraeg 1993 (ond gall fod ymrwymiad i weithredu yn unol â Chynllun iaith mewn contract trydydd parti, a gall cytundeb i dderbyn grant, benthyciad neu nawdd gynnwys amod i godi arwyddion dwyieithog). Serch hynny, mae nifer fawr o sefydliadau yn dewis codi arwyddion dwyieithog, ac mae'r arfer hynny yn gynyddol ddisgwylledig.

Mewn arolwg ar ran Bwrdd yr iaith Gymraeg, roedd 82% o bobl yng Nghymru yn gefnogol i arwyddion dwyieithog. Roedd canran uwch fyth o bobl o dan 35 oed (94%) a siaradwyr Cymraeg (96%) yn gefnogol<sup>3</sup>. Mewn arolwg diweddar roedd 87% o bobl yng Nghymru yn gweld ei bod hi'n bwysig fod y sector preifat yn defnyddio arwyddion dwyieithog<sup>4</sup>.

Under the terms of the 1993 Welsh Language Act, notified public bodies agree Welsh Language Schemes with the Welsh Language Board. These Schemes include clauses which require that signs are bilingual, and that they treat Welsh and English on an equal basis. Among Welsh local authorities: 7 authorities place Welsh first (in the North-West, Mid and West Wales); 5 authorities place English first (in the North-East and South Wales); and the remaining 10 authorities adopt equality without specifying the position of each language. Three out of four police authorities also place Welsh first on signs. The usual practice in Language Schemes is not to refer explicitly to language position.

Bilingual signs are optional for any body that is not notified under the 1993 Welsh Language Act (but there may be a commitment to act in accordance with a Language Scheme in a third-party contract, and the terms of accepting a grant, loan or sponsorship can also include a requirement to erect bilingual signs). Even so, many organisations choose to erect bilingual signs, and doing so is increasingly expected.

In a survey on behalf of the Welsh Language Board, 82% of people in Wales supported bilingual signs. An even higher percentage of people younger than 35 (94%) and Welsh-speakers (96%) were supportive<sup>3</sup>. A recent survey found that 87% of people in Wales recognised the importance of the private sector using bilingual signs<sup>4</sup>.

<sup>3</sup> Agweddau'r cyhoedd tuaq at yr iaith Gymraeg. NOP ar ran BYIG  
<sup>4</sup> Ymchwil Beaufort ar ran BYIG (2005)

<sup>3</sup> Public attitudes to the Welsh language. NOP on behalf of the WLB  
<sup>4</sup> Beaufort research on behalf of the WLB (2005)

# Arferion Gorau ar gyfer Arwyddion Dwyieithog

1. Mae Arferion Gorau Bwrdd yr iaith Gymraeg ar gyfer Arwyddion Dwyieithog yn argymhell bod arwydd unigol:

Yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r iaith Gymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben yr iaith Saesneg – rhaid i'r ddwy iaith fod yn gyfartal weladwy a darllenadwy a dylent fod yn hawdd i'w gwahaniaethu oddi wrth ei gilydd.

2. Mae gwallau ieithyddol yn gwneud testun yn llai darllenadwy, felly rhaid sicrhau cyfieithu cywir a phrawfddarllen gofalus ar gyfer y ddwy iaith.
3. Er bod yr Arferion Gorau yn annog dylunwyr i wahaniaethu rhwng y ddwy iaith yn weledol, rhaid gwneud hynny heb gyfaddawdu yr egwyddor o gydraddoldeb. Bydd y Bwrdd yn cyhoeddi canllawiau manwl ar ddylunio maes o law, gan gynnwys y dulliau canlynol i'w hystyried wrth baratoi arwydd dwyieithog:

- i. **Gofod rhwng y ddwy iaith**
- ii. **Graffeg neu linell rhwng y ddwy iaith**
- iii. **Lliw cefndir gwahanol ar gyfer y ddwy iaith<sup>5</sup>**
- iv. **Lliw testun gwahanol ar gyfer y ddwy iaith<sup>6</sup>**
- v. **[Ar arwyddion byr iawn yn unig] Priflythrennau ar gyfer un iaith a llythrennau cymysg ar gyfer y llall<sup>7</sup>**

# Best Practice for Bilingual Signs

1. The Welsh Language Board Best Practice for Bilingual Signs recommends that an individual sign must be:

Fully bilingual in Welsh and English with the Welsh language appearing to the left of or above the English language - the two languages must be equally visible and legible and should be easy to distinguish from each other.

2. Text containing errors is less legible, so accurate translation and careful proof-reading of both languages is essential.
3. Although the Best Practice encourages designers to distinguish visually between the two languages, doing so must not compromise the principle of equality. The Board will in due course publish detailed design guidelines, including the following methods which should be considered when preparing a bilingual sign:

- i. **Spacing between each language**
- ii. **Graphic or rule separator between each language**
- iii. **Different background colour for each language<sup>5</sup>**
- iv. **Different text colour for each language<sup>6</sup>**
- v. **[On very short signs only] Capitals for one language and mixed case for the other<sup>7</sup>**

<sup>5</sup>Wrth ddefnyddio lliwiau, rhaid sicrhau bod y ddwy iaith yn weladwy ac yn ddarllenadwy, ac ystyried gofynion Deddfau Camwahaniaethu ar sail Anabledd

<sup>6</sup>Wele uchod, gan nodi hefyd bod testun estynedig mewn lliw golau neu lachar yn fwy anodd i'w ddarllen

<sup>7</sup>Mae priflythrennau yn addas ar gyfer geiriau unigol a chymalau byr iawn yn unig, GAN BOD PRIFLYTHRENNAU YN GWNEUD BRAWDDEGAU HIR YN FWY ANODD I'W DARLLEN.

<sup>5</sup>When using colours, ensure that both languages are equally visible and legible, and consider the requirements of the Disability Discrimination Act

<sup>6</sup>See above, and consider also that extended text in a light or bright colour is more difficult to read

<sup>7</sup>Capitals are suitable for single words and very short phrases only, BECAUSE CAPITALISATION MAKES LONG SENTENCES MORE DIFFICULT TO READ.

4. Er mwyn parchu'r egwyddor o gyfartaledd, ni ddylid defnyddio mwy nag un o'r dulliau uchod gyda'i gilydd, a dylai unrhyw amrywiaeth mewn lliw fod cyn lleied â phosibl.
  5. Ni ddylid byth defnyddio'r dulliau canlynol o wahaniaethu testun:
    - a. Llythrennau italig ar gyfer un iaith a llythrennau cyffredin ar gyfer y llall
    - b. Maint testun gwahanol ar gyfer y ddwy iaith
  6. Lle mae perthynas rhwng nifer o arwyddion (o ran lleoliad, pwrrpas, arfer, brand, etc) dylent oll ddefnyddio'r un dull o wahaniaethu rhwng y ddwy iaith.
4. In order to respect the principle of equality, designers should not use more than one of these methods together, and any variation in colour or font weight should be kept to a minimum.
  5. The following methods should never be used to distinguish between languages:
    - a. Italic text for one language and normal text for the other
    - b. Different font size for each language
  6. Where there is a relationship between signs (with regard to location, purpose, common usage, brand, etc) they should all use the same method of distinguishing between languages.



## Atodiad A: Cwestiynau Cyffredin

### Pam bod yr Arferion Gorau yn argymhell gosod y Gymraeg i'r chwith neu uwchben y Saesneg ar arwyddion?

Ym marn y Bwrdd, byddai arfer cyson wrth leoli'r ddwy iaith yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd adnabod eu dewis iaith, yn arbennig lle nad yw'r ddwy iaith wedi eu gwahanu yn weledol (e.e. trwy ddefnyddio un o'r dulliau a argymhellwyd ym mhwynt 3)

Rhaid i'r Bwrdd felly argymhell bod un o'r ddwy iaith yn cael ei gosod i'r chwith neu uwchben y llall. Yr arfer cyffredin yn rhwngwladol yw i leoli yr iaith "leiafrifol" (hy: Cymraeg) yn y safle hon, gyda'r Saesneg wedi ei lleoli i'r dde neu oddi tanu. Nid yw'r Bwrdd yn gweld unrhyw reswm penodol i beidio dilyn yr arfer hwn yng Nghymru.

Yn ogystal, mae gramadeg Cymraeg a Saesneg yn gwneud y trefniant hwn yn un haws. Er enghraift: mae'n haws dangos a darllen "Ysgol Gynradd ABERYSTWYTH Primary School" na "ABERYSTWYTH Primary School – Ysgol Gynradd ABERYSTWYTH".

Wrth benderfynu ar yr argymhelliad hwn, mae'r Bwrdd hefyd wedi ystyried polisi presennol Llywodraeth y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â'i ddyletswydd statudol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

### Mae fy sefydliad yn paratoi neu yn adolygu Cynllun Iaith Gymraeg statudol, oes rhaid i'w bolisi ar arwyddion ddilyn yr Arferion Gorau?

Nac oes. Mae sawl ystyriaeth wrth baratoi cymalau ar arwyddion i'w cynnwys mewn Cynllun Iaith Gymraeg, a fel rheol y mwyaf perthnasol ohonynt fydd polisi cyfredol neu hanesyddol ar arwyddion. Er enghraift, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae awdurdodau lleol wastad wedi gosod y Saesneg uwchben y Gymraeg ar arwyddion.

Lle nad oes arferion cyfredol neu sefydlog, mae'r Bwrdd yn argymhell gosod y Saesneg uwchben y Gymraeg ar arwyddion newydd yn dilyn yr Arferion Gorau.

## Annex A: Frequently Asked Questions

### Why does the Best Practice recommend placing Welsh to the left or above English on signs?

The Board believes that a consistent approach to the positioning of the two languages will make it easier for the public to recognise their preferred language, especially where the two languages are not visibly distinguished (e.g. using one of the methods recommended in point 3).

The Board must therefore recommend that one of the two languages be placed to the left or above the other. Internationally, the usual practice is to place the "minority" language (ie: Welsh) in this position, with English placed to the right or below. There does not appear to the Board to be any particular reason not to follow this convention in Wales.

Additionally, Welsh and English grammar lend themselves more easily to this arrangement. For example: "Ysgol Gynradd ABERYSTWYTH Primary School" is easier to read and to display than "ABERYSTWYTH Primary School – Ysgol Gynradd ABERYSTWYTH".

In deciding on this recommendation, the Board has also considered the existing policies of the Assembly Government and other public bodies, as well as its statutory duty to promote the Welsh language.

### My organisation is preparing or revising a statutory Welsh Language Scheme, does its signage policy have to follow the Best Practice?

No. There are many factors to consider in preparing clauses on signage to be included in a Welsh Language Scheme, the most relevant of which will usually be an existing or historic policy on signage. For example, some local authority areas in Wales have always placed English above Welsh on bilingual signs.

Where there is no existing or established practice, the Board recommends that a new signage policy should reflect the Best Practice.

## **Ydy fy sefydliad yn cael adolygu ei bolisi arwyddion i ddilyn yr Arferion Gorau?**

Wrth gwrs, ond wrth wneud hynny dylid ystyried sut orau i reoli'r newid o un polisi i'r llall. Er enghraifft, pan fydd yr holl arwyddion mewn adeilad neu leoliad yn cael eu codi neu eu diweddaru gyda'i gilydd, dylid dilyn y polisi newydd, ond pan fydd un arwydd yn cael ei atgyweirio mewn hen adeilad, byddai'n fwy addas i gynnal defnydd cyson yn yr ardal honno trwy barhau gyda'r hen bolisi.

## **Oes rhaid i arwyddion ffordd ddilyn yr Arferion Gorau?**

Nac oes. Mae gan bob awdurdod lleol bolisi sefydlog parthed trefn ieithoedd ar arwyddion ffordd, ac mae Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys y cymal canlynol:

Pan fydd y ddwy iaith wedi'u cynnwys ar yr un arwydd gydag un iaith uwchben y llall, byddwn yn dilyn yr arfer a fabwysiadwyd gan Awdurdod Lleol lle mae'r arwydd wedi'i leoli. Yn ystod oes y Cynllun, byddwn yn ystyried trefn yr ieithoedd ar arwyddion ar ein cefnffyrdd.

## **Ydy'r Bwrdd yn cynnig cymorth i osod neu adnewyddu arwyddion dwyieithog?**

Mae'r Bwrdd yn darparu gwasanaeth cyfieithu am ddim i fusnesau a chyrff gwirfoddol, sy'n medru cyfieithu hyd at 30 gair, a phrawfddarllen hyd at 70 gair ([cyswllt@byig-wlb.org.uk](mailto:cyswllt@byig-wlb.org.uk); 0845 607 6070). Ceir manylion pellach ar wefan y Bwrdd [www.byig-wlb.org.uk/llinellgyswllt](http://www.byig-wlb.org.uk/llinellgyswllt).

## **Can my organisation revise its signage policy to follow the Best Practice?**

Of course, but in doing so it should consider how best to manage the transition from one policy to another. For example, where all the signs for a building or location are being installed or replaced together, it should follow the new policy, but where it is adding or repairing a single sign in an older building, it would be more appropriate to maintain consistent usage in that area by continuing with the old policy.

## **Do road signs have to follow the Best Practice?**

No. Each local authority area has an established policy regarding the order of languages on road signs, and the Welsh Assembly Government Language Scheme includes the following clause:

When both languages are included on one sign with one language above the other, the order in which the languages appear will follow the practice adopted by the local authority where the sign is located. During the lifetime of this Scheme we will consider the order of languages on signs on our trunk roads.

## **Does the Board offer assistance for installing or replacing bilingual signs?**

The Board provides a free translation service for businesses and voluntary organisations, which covers translation of up to 30 words, and proof reading of up to 70 words ([linkline@byig-wlb.org.uk](mailto:linkline@byig-wlb.org.uk); 0845 607 6070). Details can be found on the Board's website [www.byig-wlb.org.uk/linkline](http://www.byig-wlb.org.uk/linkline).

**Nodiadau**

**Notes**



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD



**Bwrdd yr iaith Gymraeg**  
5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT  
029 2087 8000  
[www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)

**Welsh Language Board**  
5-7 St Mary Street, Cardiff, CF10 1AT  
029 2087 8000  
[www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)

